Pembrokeshire Public Services Board
Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro

**COFNODION CYFARFOD BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS SIR BENFRO**
**Dydd Mawrth, 26 Tachwedd 2024, 10am (MS Teams)**

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Neil Prior | Aelod y Cabinet dros Gymunedau, Gwella Corfforaethol a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Cyngor Sir Penfro (Cadeirydd) |
| Jessica Bickerton | Prif Swyddog Gweithredol, Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro |
| Darren Mutter | Pennaeth Gwasanaethau Plant, Cyngor Sir Penfro |
| PA Christine Fraser | Arweinydd Partneriaethau (Sir Benfro/Ceredigion), Heddlu Dyfed-Powys (ymadawodd am 10.55am) |
| Iwan Thomas | Prif Weithredwr, PLANED |
| Mydrian Harries | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Caroline James | Cyfarwyddwr Cyllid, Coleg Sir Benfro |
| Ben Williams | Prif Ymarferydd Iechyd y Cyhoedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Claire Germain | Dirprwy Gyfarwyddwr Trawsnewid Llywodraeth Leol a Phartneriaethau, Llywodraeth Cymru |
| Mandy Williams | Cyd-gynhyrchu Cymru |
| Tegryn Jones | Prif Weithredwr, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (cyrhaeddodd am 10.35am) |

**Cymorth / Ysgrifenyddiaeth:**

| | |
|---|---|
| Nick Evans | Rheolwr Polisi a Phartneriaethau Corfforaethol, Cyngor Sir Penfro |
| Lynne Richards | Swyddog Partneriaethau Corfforaethol, Cyngor Sir Penfro |
| Amy Richmond-Jones | Rheolwr Ymgysylltu, Cynllunio a Pherfformiad, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |

**Ymddiheuriadau:**

| | |
|---|---|
| Will Bramble | Prif Weithredwr, Cyngor Sir Penfro |
| Richard Brown | Prif Weithredwr Cynorthwyol, Cyngor Sir Penfro |
| Y Cyng. Jon Harvey | Arweinydd, Cyngor Sir Penfro |
| Rhian Bennett | Uwch-reolwr Comisiynu, Cyngor Sir Penfro |
| Caroline Drayton | Rheolwr Gweithrediadau, Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Barry Walters | Pennaeth, Coleg Sir Benfro |
| Phil Kloer | Prif Swyddog Gweithredol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Darren Thomas | Pennaeth Seilwaith, Cyngor Sir Penfro |
| Alison Perry | Cyfarwyddwr Comisiynu, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu |
| Tom Moses | Un Llais Cymru |

| | |
|---|---|
| Bruce Bolam | Dirprwy Gyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Ardiana Gjini | Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Linda Jones | Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru |
| Anna Malloy | Porthladd Aberdaugleddau |

Dechreuodd y cyfarfod am 10.02am

## 1. Croeso ac ymddiheuriadau

Croesawodd NP bawb i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan yr unigolion a restrir uchod.

## 2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf / Cofnod y camau gweithredu

Camau gweithredu

| | Cam gweithredu | Datrysiad |
|---|---|---|
| 1 | Codi mater y cynllun cyflawni mewn cyfarfod Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Benfro er mwyn ceisio cael y bartneriaeth i gytuno ar rai camau gweithredu, a nodi cynnig LR i symud y gwaith hwn yn ei flaen | Nid yw cyfarfod o'r grŵp Natur, Datgarboneiddio a Hinsawdd wedi'i gynnal ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Felly, mae'n aneglur a yw hyn wedi'i drafod ag arweinydd bioamrywiaeth y grŵp ai peidio |
| 2 | Aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gadarnhau gyda'u sefydliadau bod y bobl gywir yn mynd i gyfarfodydd Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Benfro er mwyn sicrhau y gellir cynnal trafodaethau defnyddiol | Fel uchod |
| 3 | Trefnu trafodaeth gyda phartneriaid â diddordeb i ystyried datblygu cynllun cyfathrebu ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus | Gweler isod |
| 4 | Ceisio aildrefnu cyfarfod y Grŵp Tlodi a ganslwyd ar gyfer rhywbryd ym mis Hydref | Ni chynhaliwyd y cyfarfod ym mis Hydref, ond mae cyfarfodydd wedi'u trefnu ar gyfer Rhagfyr ac Ionawr |
| 5 | Trafod y newidiadau awgrymedig i'r cylch gorchwyl â NP/NE y tu allan i'r cyfarfod a gwneud y newidiadau angenrheidiol | Cynhaliwyd cyfarfod i drafod y diwygiadau, a rhannwyd y cylch gorchwyl wedi'i ddiweddaru â phartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus |
| 6 | Creu pôl piniwn ar Doodle gyda dyddiadau cyfatebol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer y flwyddyn nesaf a'i ddosbarthu i bartneriaid i gael adborth | Mae dyddiadau cyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn 2025 wedi'u dosbarthu |

Cam gweithredu 3 – Trefnu trafodaeth gyda phartneriaid â diddordeb i ystyried datblygu cynllun cyfathrebu ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

Cynhaliwyd cyfarfod gyda'r cadeirydd, TJ, IT, JB, NE a LR ar 8 Tachwedd. Trafodwyd datblygu cynllun cyfathrebu ar gyfer y bwrdd, ond cytunwyd bod adnoddau yn broblem. Yn lle hynny, cytunwyd y dylai'r bwrdd gydweithio i hyrwyddo digwyddiadau arwyddocaol neu ofyn i gymunedau gymryd rhan os yw'r pedair egwyddor ganlynol yn cael eu bodloni;

- Mae yna neges gadarnhaol
- Mae yna gynulleidfa / mae er budd y cyhoedd
- Mae angen cymorth ar y bwrdd i gyflawni nod (mae angen galwad i weithredu)
- Mae partneriaid yn gallu darparu adnoddau i gefnogi

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 24 Medi 2024 yn gofnod cywir.

**3. Sesiwn 'sbotolau' ar y cynllun llesiant – Prosiect tlodi**

Cyflwynodd DM y sleidiau a ddosbarthwyd i'r partneriaid fel rhan o becyn yr agenda. Cyflwynodd y cyd-destun a'r cefndir o ran y platfform LIFT (traciwr teuluoedd incwm isel) a ddatblygwyd gan Policy in Practice, ac amlinellodd fanteision y platfform o ran cynyddu incwm y rheiny sydd â hawl i fudd-daliadau nad oeddent yn eu hawlio ar hyn o bryd. Nododd DM y gallai fod manteision ehangach i'r economi leol a'r awdurdod lleol hefyd wrth i lesiant pobl wella ac wrth i ddyledion leihau oherwydd incwm ychwanegol.

Byddai'r broses yn dechrau drwy ganolbwyntio ar ymgyrch ynghylch yr hawl i gredyd pensiwn. Dywedodd DM y byddai angen defnyddio dull graddol o dargedu, un budd-dal ar y tro, er mwyn ymdopi â'r galw mawr a allai ddilyn ymgyrch bostio. Dywedodd hefyd ei fod wedi cysylltu â'r grŵp pobl hŷn lleol er mwyn rhoi gwybod iddynt am yr ymgyrch. Dywedodd hefyd bod y grŵp wedi awgrymu postio'r llythyrau mewn amlenni gwyn yn hytrach na rhai brown, oherwydd eu bod yn cysylltu amlenni brown â biliau, ac felly'n eu hanwybyddu o bosibl.

Dywedodd CG fod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cynnal prosiect peilot ar hyn o bryd i ystyried effeithiolrwydd offer megis LIFT a'r buddion i awdurdodau lleol. Byddai'n cysylltu â DM y tu allan i'r cyfarfod er mwyn trafod y mater hwn ymhellach.

Gofynnodd CJ sut yr oedd y feddalwedd wedi'i haddasu i'w defnyddio yng Nghymru, gan nad oedd Lwfans Cynhaliaeth Addysg ar gael yn Lloegr. Nododd hefyd y potensial i sgamwyr ddod yn ymwybodol o ymgyrchoedd a chamfanteisio arnynt. Dywedodd DM fod y feddalwedd wedi'i haddasu i'w defnyddio yng Nghymru, ac mae'n cael ei defnyddio gan Gyngor Rhondda Cynon Taf ar hyn o bryd. Roedd mesurau diogelu hefyd ar waith i geisio atal sgamwyr rhag camfanteisio ar ddarpar ymgeiswyr newydd budd-daliadau.

Gofynnodd JB am allu'r tîm i ymdopi â'r llwyth gwaith ychwanegol, ac a fyddai cysylltiad ag asiantaethau eraill a allai gynnig cymorth, megis Cyngor ar Bopeth. Dywedodd hefyd y byddai'n bwysig rhoi gwybod i gysylltwyr cymunedol Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro am unrhyw ddatblygiadau. Gofynnodd NP hefyd am adnoddau ar gyfer y prosiect, ac a oedd rôl i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Nododd DM fod adnoddau wedi'u

clustnodi'n fewnol er mwyn cefnogi'r broses o gyflwyno'r ymgyrchoedd. Dywedodd hefyd ei fod yn ymwybodol nad oedd Cyngor ar Bopeth bellach yn derbyn atgyfeiriadau oherwydd diffyg capasiti, a bod hwn yn rheswm arall dros beidio â dechrau'r ymgyrchoedd i gyd ar yr un pryd. Rôl aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus fyddai codi ymwybyddiaeth fel bod pobl yn ymwybodol y gellir cysylltu â nhw. Dywedodd DM y byddai gwybodaeth yn cael ei pharatoi i godi ymwybyddiaeth ymhlith partneriaid y bwrdd, eu staff a'u cwsmeriaid, a allai hefyd ysgogi pobl i edrych yn rhagweithiol ar eu hawl i fudd-daliadau. O safbwynt ymarferol, byddai'n rhaid i'r broses gael ei harwain gan Gyngor Sir Penfro oherwydd bod cytundebau rhannu gwybodaeth ar waith gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau.

Dywedodd NP ei fod yn awyddus i archwilio, drwy'r gweithgor tlodi, sut y gallai partneriaid eraill y bwrdd gefnogi'r broses. Awgrymodd DM y gallai'r gweithgor ddatblygu strategaeth gyfathrebu a neilltuo tasgau i bartneriaid y bwrdd drwy'r grŵp. Dywedodd NP y byddai'n awyddus i fynd i gyfarfod gweithgor er mwyn cymryd rhan yn y trafodaethau hyn.

## 4. Diweddariadau am y prosiect llesiant

Cryfhau Cymunedau

Dywedodd NP ei fod wedi'i galonogi gan y cynnydd diweddar, a nododd y byddai sesiwn yn cael ei chynnal yng nghyfarfod nesaf y bwrdd ar y broses Newid Mwyaf Arwyddocaol ar gyfer gwaith y grŵp Cryfhau Cymunedau.

Nododd JB fod y strategaeth wirfoddoli ar fin cyrraedd y cam drafft terfynol, ac y byddai'r strategaeth derfynol yn cael ei lansio ym mis Mawrth (mae'r digwyddiad wedi'i drefnu ar gyfer 19 Mawrth ar hyn o bryd). Byddai gweithdy o'r enw 'Deall y Sector Gwirfoddoli Heddiw' hefyd ar gael i'r rheiny sydd â diddordeb. Byddai gwybodaeth bellach yn cael ei dosbarthu pan fyddai dyddiad yn cael ei drefnu.

Natur, datgarboneiddio a newid hinsawdd

Nid oedd unrhyw gwestiynau am ddiweddariad y grŵp Natur, datgarboneiddio a newid hinsawdd.

## 5. Gwiriwr Cynnydd Ffyrdd o Weithio Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol – trafodaeth

Amlinellodd NE gefndir yr eitem hon ar yr agenda, gan nodi y gofynnwyd i bob corff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a oedd yn fodlon defnyddio'r offeryn i wirio eu cynnydd, a byddai'r deilliannau'n cael eu defnyddio yn adroddiad pum mlynedd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol sydd i fod i gael ei ryddhau y flwyddyn nesaf.

Dywedodd y byddai'r offeryn yn cymryd cryn dipyn o waith i'w gwblhau, ac felly nid oedd yn rhywbeth y gellid mynd i'r afael ag ef yn ystod cyfarfod cyffredin o'r bwrdd. Nododd hefyd fod llawer o aelodau newydd o'r bwrdd, a bod angen gwybodaeth hanesyddol ar yr offeryn er mwyn ei gwblhau'n llwyddiannus. Dywedodd NE fod cydweithiwr yn nhîm polisi Cyngor Sir Penfro wedi ceisio cwblhau'r offeryn, ac wedi ystyried y broses yn un feichus.

Dywedodd NP y gallai cwblhau'r offeryn fod yn ddefnyddiol mewn egwyddor, ond gofynnodd i Dan Shaw o dîm polisi Cyngor Sir Penfro i anfon neges e-bost at NP yn rhannu ei farn ar gwblhau'r offeryn fel y gallai NP ystyried hyn ymhellach.

## 6. Unrhyw faterion eraill

Nododd NP y byddai Derek Walker, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, yn mynd i drafodaeth ford gron yn swyddfeydd Fforwm Arfordirol Sir Benfro yn Noc Penfro ar 4 Rhagfyr. Mae'r trafodaethau yn debygol o gynnwys;

- Cyllid arloesol/ cyllid natur
- Ymaddasu i'r hinsawdd ac ymgysylltu â'n cymunedau
- Cyfle'r Môr Celtaidd ar gyfer ein rhanbarth a Chymru
- Sgiliau gwyrdd
- Iechyd awyr agored a phresgripsiynu cymdeithasol

Roedd y gwahoddiad wedi'i anfon ymlaen at yr arweinwyr ar ddatgarboneiddio a bioamrywiaeth o Grŵp Natur, Datgarboneiddio a Newid Hinsawdd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.27am.

**Cofnod o'r camau gweithredu**

| Rhif | Tud. | Cam gweithredu | Dyddiad targed | Perchennog | Datrysiad |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 3 | Gwahodd NP i fynd i gyfarfod nesaf y grŵp tlodi ynghylch platfform LIFT a chyfranogiad partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus | Cyfarfod nesaf y Pwyllgor Gwaith | LR | Cwblhawyd |
| 2 | 4 | Dosbarthu rhagor o wybodaeth a dyddiad y gweithdy 'Deall y Sector Gwirfoddoli Heddiw' pan fydd ar gael | Pan mae'n dod i law | LR | Cwblhawyd |
| 3 | 4 | Dosbarthu gwybodaeth am gwblhau offeryn, Gwiriwr Cynnydd Ffyrdd o Weithio Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, er mwyn i NP ei hystyried | Cyn gynted â phosib | NE/DS | Cwblhawyd |